Rhif: **WG22160**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

## Ein cymwysterau – ein dyfodol

Ymgynghoriad ar y cynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru

Dyddiad cyhoeddi: **Mehefin 2014**

# Ein cymwysterau – ein dyfodol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Y cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad ar greu corff cymwysterau newydd yng Nghymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Claire Habberfield<br>Y Tîm Deddfwriaeth<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhadbost NAT 8910<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3BR<br>Ffôn: 029 2082 6893<br>e-bost: qualificationswales@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Ein cymwysterau – ein dyfodol* (2013) Ymgynghoriad ar y cynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru |

ISBN digidol 978 1 4734 1448 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22160

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol** **2**

Crynodeb o’r ymgynghoriad ffurfiol 2

Crynodeb o’r gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc 3

Themâu cyffredinol yn y ddwy set o ymatebion 3

Diolchiadau 3

**1. Ymgynghoriad ffurfiol**

1.1 Cefndir 4

1.2 Methodoleg 5

1.3 Crynodeb o’r ymatebwyr 5

1.4 Dadansoddiad cryno 6

1.5 Rhestr o’r ymatebwyr 17

1.6 Dadansoddiad o’r ymatebion fesul cwestiwn 19

**2. Ymgynghoriad plant a phobl ifanc** **20**

2.1 Cefndir 20

2.2 Methodoleg 20

2.3 Crynodeb o’r cyfranogwyr 21

2.4 Dadansoddiad cryno 21

2.5 Rhestr o’r cyfranogwyr 30

# Crynodeb gweithredol

## Crynodeb o'r ymgynghoriad ffurfiol

Cyhoeddwyd papur ymgynghori, *Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru*, ar 1 Hydref 2013, a daeth y cyfnod ymateb i ben ar 20 Rhagfyr 2013. Ar y cyfan, roedd cefnogaeth gref iawn dros sefydlu rheoleiddiwr annibynnol neu gorff sicrhau ansawdd y tu allan i'r Llywodraeth.

Roedd amheuon cryf, pryderon a rhywfaint o wrthwynebiad i gynnwys cyfrifoldebau dyfarnu yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru. Pwysleisiodd ymatebion yn benodol yr angen am wahanu clir rhwng dyletswyddau pe bai pwerau dyfarnu'n cael eu deddfu i osgoi gwrthdaro buddiannau.

Roedd pryderon hefyd gan Sefydliadau Dyfarnu yn benodol am y 'gyfres unigol' o gymwysterau o ran lleihau'r dewis i ddysgwyr a chyfyngu ar y cymhelliant i arloesi.

Pwysleisiodd llawer y byddai angen i gymwysterau a ddatblygir yng Nghymru ar gyfer Cymru, pa bynnag system a ddatblygir, fod yn gludadwy, o ansawdd uchel ac o werth dros y ffin yn y DU ac Ewrop. Mae'n rhaid i gymwysterau sydd â theitlau cyffredin fel TGAU a Safon Uwch, hyd yn oed os ydynt yn wahanol o ran strwythur, gyfateb o ran safon a bod yn gyfwerth ym marn rhanddeiliaid er mwyn cefnogi symudedd a dilyniant dysgwyr i Addysg Uwch (AU) a chyflogaeth.

Mynegwyd cefnogaeth gref dros y lefel uchel arfaethedig o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Cymwysterau Cymru ac anogaeth i barhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual). Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y dylai Cymwysterau Cymru ymgysylltu'n llawn â chyrff cenedlaethol eraill yng Nghymru fel Estyn a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) a bod angen eglurder o ran y berthynas rhwng cwricwlwm a chymwysterau a'r angen am gydlyniant yn ogystal â sefydlogrwydd.

Roedd cefnogaeth gref i Fagloriaeth Cymru fel y cymhwyster blaenllaw ar gyfer Cymru, ynghyd â chefnogaeth gref i Cymwysterau Cymru ysgwyddo cyfrifoldeb am Brentisiaethau. Nodwyd hefyd bod angen i Cymwysterau Cymru fod yn gynhwysol a sicrhau cymwysterau lefel uchel ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

Mae llawer o ymatebwyr o grwpiau rhanddeiliaid amrywiol yn awyddus i gyfrannu at ddatblygiadau yn y dyfodol ac yn mynegi eu hymrwymiad i gydweithio gyda Cymwysterau Cymru wrth i'r sefydliad ddatblygu er mwyn sicrhau system gymwysterau dryloyw a chadarn.

Mae manylion pellach am yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dilyn yn Rhan 1 o'r ddogfen hon.

## Crynodeb o’r gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc

Ar y cyfan, ystyriwyd y cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru yn ddatblygiad cadarnhaol iawn ar gyfer dyfodol addysg yng Nghymru, gyda chanmoliaeth benodol i degwch a symlrwydd gwell y system.

Gwnaeth cyfranogwyr sylwadau cadarnhaol hefyd am y manteision posib i siaradwyr Cymraeg, yr hyder ychwanegol a fydd yn cael ei annog drwy well ansawdd a’r ffordd y bydd disgyblion yn gallu symud yn haws rhwng ysgolion yng Nghymru.

Ochr yn ochr â’r manteision ymddangosiadol hyn, mynegodd cyfranogwyr nifer o bryderon hefyd am y ffordd y mae’r system newydd yn cael ei chyflwyno a’i rheoli.

Mae manylion pellach am yr ymatebion i’r gweithgarwch ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc yn dilyn yn Rhan 2 y ddogfen hon.

## Themâu cyffredinol yn y ddwy set o ymatebion

Mae’r themâu sy’n gyffredin i’r ymatebion i’r ddau weithgaredd ymgynghori’n cynnwys:

- yr angen i feithrin hyder y cyhoedd,
- yr angen i sicrhau bod y trefniadau pontio yn gadarn,
- cludadwyedd parhaus cymwysterau,
- annibyniaeth y sefydliad newydd.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad ffurfiol yn cefnogi’r cynigion yn y ddogfen ymgynghori, ond mynegodd ymatebwyr i’r ymgynghoriad ar-lein bryderon sylweddol am y gwrthdaro buddiannau ymddangosiadol wrth berfformio swyddogaethau dyfarnu a sicrhau ansawdd.

## Diolchiadau

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i’n hymgynghoriad a chymryd rhan yn ein gweithdai ymgysylltu am eu cyfraniadau.

# 1. <u>Ymgynghoriad Ffurfiol</u>

## 1.1 Cefndir

Ym mis Tachwedd 2012, argymhellodd yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff sengl sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn radd yng Nghymru, ac ymhen amser, datblygu a dyfarnu y rhan fwyaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru.

Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru yr argymhelliad hwn ac maent wedi cymryd y camau cyntaf i'w gyflawni drwy gyhoeddi'r ymgynghoriad ffurfiol, *Ein Cymwysterau - Ein Dyfodol: Ymgynghoriad ar gynigion i greu corff cymwysterau newydd i Gymru*, ar 1 Hydref 2013. Diben yr ymgynghoriad hwn oedd ennyn barn rhanddeiliaid ar y materion sy'n deillio o'r cynnig hwn.

Roedd y ddogfen ymgynghori yn gofyn y cwestiynau canlynol i randdeiliaid:

Yr achos dros newid

1. A oes unrhyw broblemau eraill sy'n amharu ar effeithiolrwydd y system bresennol neu a oes unrhyw wendidau eraill?
2. A oes unrhyw nodweddion penodol o'r system bresennol y byddech yn awyddus i'w cadw?

Ein Gweledigaeth

3. Beth yw eich barn am y weledigaeth yr ydym yn ei chynnig ar gyfer Cymwysterau Cymru?

Sut byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth

4. Ydych chi'n credu y bydd y gweithgareddau a'r swyddogaethau hyn yn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru?
5. Beth yw eich barn am y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru?
6. Beth yw eich barn am gylch gorchwyl a swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru? Ydych chi'n meddwl bod ei swyddogaethau yn weddol briodol neu a ddylai gael cylch gwaith gwahanol?
7. Beth ddylai Cymwysterau Cymru ei wneud i gryfhau hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru?
8. Yn eich barn chi, sut ac i ba raddau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr a/neu unrhyw gategorïau rhanddeiliaid penodol?

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 20 Rhagfyr 2013. Cyflwynir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad hwnnw yn y penodau canlynol.

Gellir gweld copïau o'r ymatebion a dderbyniwyd, oni bai am y rai a ofynnodd am gyfrinachedd, yn eu fformat a'u hiaith wreiddiol yn:
http://wales.gov.uk/consultations/education/our-qualifications-our-future/?lang=cy

## 1.2 Methodoleg

Gofynnodd yr ymgynghoriad i gyfranogwyr ymateb i 9 cwestiwn agored yn ymwneud ag adrannau 3 i 5 y ddogfen ymgynghori. Derbyniwyd 62 o ymatebion. Roedd yr ymatebion yn fanwl ac yn crybwyll nifer o faterion a oedd yn ymwneud â Cymwysterau Cymru fel sefydliad ynghyd â materion yn ymwneud â chymwysterau yn fwy cyffredinol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn ateb y cwestiynau fel y'u nodwyd yn holiadur yr ymgynghoriad, ond ymatebodd lleiafrif bach ar ffurf llythyr neu drwy wneud dim mwy na rhestru materion yn ymwneud â'u sefydliad eu hunain yn unig.

Dadansoddwyd y canlyniadau gyda'i gilydd a'u rhannu hefyd er mwyn gweld pa faterion sy'n berthnasol i grwpiau penodol o randdeiliaid, er enghraifft sefydliadau dyfarnu, ysgolion a cholegau, sefydliadau AU, cymdeithasau addysgu, awdurdodau lleol a sefydliadau cenedlaethol penodol i Gymru a'r DU i gyd.

## 1.3 Crynodeb o'r ymatebwyr

Derbyniwyd cyfanswm o 62 o ymatebion. Mae'r tablau canlynol yn rhannu'r nifer hwn yn ôl mathau o ymatebwyr.

| | |
|---|---|
| Sefydliad Dyfarnu | 15 |
| Cymdeithas Athrawon | 7 |
| Sgiliau Sector / Busnes / Cyflogwyr | 9 |
| Awdurdod Lleol | 3 |
| Ysgol / Coleg | 2 |
| Addysg Uwch | 6 |
| Addysg Bellach | 6 |
| Llais Myfyrwyr | 2 |
| Corff Cenedlaethol | 6 |
| Ymateb Unigol | 6 |
| **Cyfanswm** | **62** |

| | |
|---|---|
| Ymatebion Cymru yn unig | 36 |
| Ymatebion o Gymru gyda buddiant yn y DU | 1 |
| Ymatebion o'r tu allan i Gymru gyda buddiant yn y DU | 25 |
| **Cyfanswm** | **62** |

## 1.4 Dadansoddiad cryno

### Yr achos dros newid

Yn yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad roedd nifer sylweddol yn gytûn bod angen system gymwysterau sy'n ymatebol i Gymru. Cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr bod achos clir dros sefydlu un corff annibynnol cenedlaethol i fod yn gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau yng Nghymru.

> *'Mae'r cynnig i sefydlu Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w groesawu'n fawr. Gydag amser, gallai'r corff newydd hwn ddod yn awdurdodol wrth ymwneud â'r llywodraeth a rhanddeiliaid eraill. Bydd hyn yn angenrheidiol i sicrhau hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau sy'n ymddangos yng Nghymru.'* (ASCL Cymru)

Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer hefyd yr angen i sicrhau bod buddion dysgwyr Cymru yn cael eu diogelu, yn enwedig mewn perthynas â chludadwyedd cymwysterau.

> *'Rydym yn deall yr egwyddor o symleiddio'r system gymwysterau yng Nghymru ac mae'n syniad canmoladwy. Ond mae'n rhaid i system newydd fod yn gadarn a gallu cael ei chymharu â chymwysterau mewn mannau ledled y Deyrnas Unedig, a thu hwnt, er mwyn i ddysgwyr o Gymru allu cystadlu i'r un graddau â'r rhai sy'n chwilio am waith neu leoedd addysg bellach ac uwch y tu allan i Gymru.'* (CLlLC)

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi nifer o rwystrau i effeithlonrwydd yn y system gymwysterau gyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys: sefydliadau dyfarnu sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd; blaenoriaethau sy'n gwrthdaro ar draws y system tair gwlad gyfredol a'r gallu cyfyngedig i fynd i'r afael â materion Cymru yn unig, gan gynnwys parhad a chydlyniant â'r cwricwlwm yng Nghymru. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno bod y rhain yn rhwystrau a nododd llawer rwystrau pellach, er enghraifft: anghysondebau wrth ddehongli rheoliadau cyfredol; rhwystrau pellach i ddysgwyr ag anableddau; diffyg dealltwriaeth gyffredinol o gymwysterau galwedigaethol ac amlder cymwysterau. Gwnaeth rhai y sylw hefyd bod diffyg cydlyniant ar hyn o bryd rhwng y cwricwlwm a'r system gymwysterau ac nad yw hynny'n cefnogi rhaglen ddysgu esmwyth ac integredig.

> *'..mae angen amlwg i asio cynllun a nodau cymwysterau gyda'r cwricwlwm diwygiedig yng Nghyfnod Allweddol 4 ac is. Dylai profiad dysgwyr ôl-16 fod yn un sy'n datblygu'n naturiol o'u profiad a'u cyrhaeddiad yn yr ysgol, gan alluogi llwybrau dilyniant i gael eu huno'n iawn.'* (Coleg Gwent)

Nid oedd nifer fach o ymatebwyr yn cytuno bod tystiolaeth i gefnogi rhai o'r rhwystrau a nodwyd. Yn benodol, credent fod gyda system sawl sefydliad dyfarnu yn creu dewis i ddysgwyr a chyfleoedd i arloesi a bod diffyg

tystiolaeth i sefydlu ‘rhwyddineb cymharol’ gwahanol gymwysterau. Cwestiynwyd hefyd a fyddai Cymwysterau Cymru yn gallu cynnig yr holl gymwysterau cyffredinol amrywiol sydd ar gael ar hyn o bryd. Nododd un gymdeithas addysgu hefyd bod fframweithiau cymwysterau cyffredin yn cynorthwyo symudedd y gweithlu athrawon ac arweinwyr ysgolion.

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi’r hyn y byddent yn dymuno’i gadw o’r system gyfredol. Nododd llawer feysydd sy’n ymwneud â chymwysterau, gyda dros hanner yn mynnu bod cludadwyedd a pherthnasedd cymwysterau ar draws ffiniau yn hollbwysig, pa bynnag system a sefydlir, o ran symudedd dysgwyr a dilyniant i addysg uwch a chyflogaeth. (Mae manylion y materion a godwyd mewn perthynas â chymwysterau yn atodiad 2). Roedd tua thraean yr ymatebwyr hefyd o blaid cadw sawl sefydliad dyfarnu, gan gredu bod cystadleuaeth yn galluogi amrywiaeth a dewis er mwyn diwallu anghenion dysgwyr ac annog arloesi. Roedd cefnogaeth hefyd i gydweithio parhaus â sefydliadau cenedlaethol eraill fel Estyn a CyngACC, sefydliadau dyfarnu a rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Ofqual. Roedd llawer o sefydliadau oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth alwedigaethol o blaid cadw’r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

> *‘Mae’r mater o gludadwyedd cymwysterau, yn enwedig rhwng Cymru a Lloegr yn bwysig iawn. Mae’r Ffederasiwn yn parchu’r angen am gymwysterau yng Nghymru i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr a darparwyr o Gymru, ond byddai’n annog Cymwysterau Cymru i geisio sicrhau cydbwysedd rhwng hyn ac anghenion dysgwyr mewn perthynas â chludadwyedd cymwysterau ledled y DU a thu hwnt.’* (FAB)

> *‘Mae’n hollbwysig bod cymwysterau yng Nghymru yn gludadwy ac yn cael eu gwerthfawrogi mewn mannau eraill yn y DU. Er ei bod yn ymddangos bod system wahanol yn datblygu, credwn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda’i chymheiriaid ledled y DU i leihau’r effaith bosibl a sicrhau cydraddoldeb.* (Skills Active)

**Y weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru a sut y caiff ei chyflawni**

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr o blaid y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymwysterau Cymru:

- Symleiddio a phroffesiynoli’r system gymwysterau;
- Craffu ar, gwerthuso a gwella cymwysterau yn y system honno;
- Cefnogi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Meithrin hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru a’r wybodaeth amdanynt;
- Darparu cymwysterau o ansawdd uchel i ddysgwyr yng Nghymru.

> *‘Mae’r weledigaeth a amlinellir yn y ddogfen wedi’i phwyso a’i mesur yn ofalus ac yn gredadwy. Mae’n nodi strwythur rheoleiddio a dull ehangach a*

> *ddylai baratoi Cymru'n dda ar gyfer y dyfodol. Bydd yn cadw cryfderau'r system gyfredol tra'n ychwanegu swyddogaethau allweddol fel gwella ansawdd er mwyn galluogi i Gymru ddatblygu ffrydiau gwaith pwysig a sicrhau bod cymwysterau yn berthnasol yng Nghymru, yn gyfoes o ran cynnwys, wedi'u strwythuro'n dda yn addysgol ac yn addas ar gyfer anghenion cyflogwyr a darparwyr addysg uwch yng Nghymru a thu hwnt.'* (Colegau Cymru)

Fodd bynnag, roedd amheuon a phryderon cryf hefyd yn ymwneud yn benodol â chynnwys cyfrifoldebau dyfarnu yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru. Croesawodd nifer fach o ymatebwyr y weledigaeth mewn perthynas â Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr annibynnol yn unig ac roeddynt yn gwrthwynebu'r swyddogaeth ddyfarnu yn chwyrn. Roedd nifer is hyd yn oed yn gwrthwynebu'r weledigaeth yn llwyr.

Amheuaeth sylweddol arall a fynegwyd oedd y risg y byddai creu Cymwysterau Cymru a'r weledigaeth ar ei gyfer yn peryglu cludadwyedd a pherthnasedd cymwysterau a ddatblygir yn ac ar gyfer Cymru.

> *'…mae'n hollbwysig nad yw ymddangosiad corff unigol a dyfarniadau unigol yn creu cymwysterau 'un ateb sy'n addas i bawb' a fydd yn atal yn hytrach nag ymgysylltu â'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ymddieithrio neu a allai greu rhwystrau i byrth darparwyr addysg uwch y tu hwnt i Gymru.'* (NAHT Cymru)

Roedd amheuon neu bryderon a fynegwyd gan ymatebwyr a amlinellir mewn ymateb i gwestiynau 4 a/neu 6 yn ymwneud yn bennaf â sut y byddai Cymwysterau Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau ar lefel weithredol. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol bod natur a graddfa gweithgareddau a swyddogaethau arfaethedig yn ymddangos yn gydnaws â chyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru, a bod cwmpas a swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru hefyd yn briodol ar y cyfan. Nid oedd nifer fechan yn credu bod y cwmpas a'r swyddogaethau'n briodol.

O'r rhai a oedd yn cytuno bod y cwmpas, swyddogaethau a gweithgareddau arfaethedig yn briodol, pwysleisiodd llawer yr angen i esbonio'r gwahaniaeth rhwng rheoleiddio a dyfarnu yn hollol glir ac i gael mesurau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd er mwyn osgoi cyhuddiadau o wrthdaro buddiannau. Mewn rhai achosion, awgrymwyd y byddai angen ymgynghori ymhellach yn y maes hwn. Roedd cefnogaeth gadarn hefyd dros gyflwyno'r swyddogaethau'n raddol.

> *'Ar lefel weithredol, bydd yn rhaid i Cymwysterau Cymru ymarfer ei swyddogaethau gwahanol (porthgadw, adolygu a sicrhau ansawdd, dyfarnu cymwysterau) mewn ffyrdd sy'n ennyn hyder nad oes gwrthdaro buddiannau ar gyfer y sefydliad.'* (Colegau Cymru)

Roedd cefnogaeth gref iawn dros ymgysylltu â chyrff cenedlaethol eraill, gan gynnwys Estyn a CyngACC, ynghyd â chydweithio'n llawn â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys, er enghraifft, cytundeb ffurfiol ag Ofqual. Pwysleisiwyd yr

angen i ymgysylltu â chyflogwyr hefyd, nid yng Nghymru'n unig, ond tu allan i Gymru a'r rhai sy'n croesi ffiniau.

Mynegwyd rhai pryderon mewn perthynas â swyddogaethau a gweithgareddau arfaethedig Cymwysterau Cymru a darpariaeth alwedigaethol, gan gynnwys gostyngiad posibl yn amrywiaeth y cymwysterau a gynigir a gostyngiad yn symudedd dysgwyr pe bai gofynion yn rhy benodol i Gymru. Anogodd rai hefyd na ddylid peryglu'r ymgysylltu â chyrff proffesiynol sy'n gweithredu ledled y DU, er mwyn i ddysgwyr yng Nghymru barhau i gael mynediad i'r ystod lawn o gymwysterau proffesiynol. Ar y cyfan, roedd cais hefyd am eglurder pellach mewn perthynas â rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol, dysgu yn y gwaith a Phrentisiaethau.

**Llywodraethu Cymwysterau Cymru**

Credai'r mwyafrif o ymatebwyr bod y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru yn briodol ar y cyfan. Credai un ymatebwr nad oedd y trefniadau'n briodol, gan eu bod yn ychwanegu haen o fiwrocratiaeth a chostau ychwanegol. Mynegodd rhai ymatebwyr amheuon neu bryderon a gwnaeth rai awgrymiadau ar gyfer pethau i'w hychwanegu neu eu pwysleisio ymhellach yn y trefniadau arfaethedig. Ni fynegodd y gweddill farn nac ymateb i'r cwestiwn.

Y pryder mwyaf cyffredin a fynegwyd gan nifer o ymatebwyr eto oedd yr angen am dryloywder ac eglurder mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer swyddogaethau deuol rheoleiddio a dyfarnu. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn fodlon gyda'r atebolrwydd a'r annibyniaeth mewn perthynas â Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr, ond yn mynegi pryderon am y swyddogaeth ddyfarnu a sut y byddai'r gwrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli. Roedd rhai ymatebwyr yn parhau i ddadlau o blaid gwahanu'r swyddogaethau hyn.

> *'Bydd angen i'r trefniadau llywodraethu adlewyrchu'r nod o wahanu swyddogaethau rheoleiddio a dyfarnu Cymwysterau Cymru. I'r perwyl hwn, gallai fod yn briodol cael gwahanol strwythurau adrodd, canolfannau costau a llinellau atebolrwydd i ymdrin â'r gwahanol swyddogaethau y bydd yn eu hymarfer*.' (Llandrillo Menai)

Nododd un ymatebwr er bod y trefniadau arfaethedig yn gwbl briodol ar gyfer swyddogaethau uniongyrchol Cymwysterau Cymru, yn y tymor hirach, wrth iddo ysgwyddo swyddogaethau dyfarnu, bydd sefydlu trefniadau llywodraethu priodol yn fwy o her. Mynegwyd pryderon hefyd gan rai ymatebwyr mewn perthynas ag effaith Cymwysterau Cymru yn cynnig gwasanaethau y tu hwnt i Gymru a sut i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau masnachol a rheoleiddio.

Cwestiynodd nifer fach o ymatebwyr pa mor annibynnol fyddai Cymwysterau Cymru pe bai ei gylch gwaith yn cael ei bennu gan weinidogion a'i gyllido gan Weinidogion. Gwnaed cymhariaeth â threfniadau Ofqual gyda Senedd San Steffan. Roedd llawer o ymatebwyr yn bryderus hefyd y dylai bwrdd Cymwysterau Cymru adlewyrchu ei randdeiliaid yn ddigonol a chynnwys

cynrychiolaeth eang. Awgrymwyd hefyd y dylid penodi'r Cadeirydd am dymor penodol.

**Atgyfnerthu hyder y cyhoedd**

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y byddai gan y cyhoedd hyder yn Cymwysterau Cymru fel rheoleiddiwr cadarn ac annibynnol gyda gweithdrefnau tryloyw a llinellau atebolrwydd clir.

> *'Bydd sefydlu Cymwysterau Cymru fel corff annibynnol sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu at fagu hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau a'i chanlyniadau.'* (ASCL Cymru)

Fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan lawer y gallai'r rôl ddeuol o reoleiddio a dyfarnu ymddangos fel gwrthdaro buddiannau a lleihau hyder mewn cymwysterau yn sgil hynny. Thema gyffredin mewn nifer o ymatebion yw y dylai Cymwysterau Cymru gael strategaeth gyfathrebu glir a chadarn o'r cychwyn, gan gynnwys cynllunio ar gyfer pontio o un system i'r llall, a dylid cynnal hyn wrth i'w rôl ddatblygu.

Awgrymwyd hefyd y dylai Cymwysterau Cymru:

- Weithio gyda phartneriaid y mae gan y cyhoedd hyder ynddynt eisoes.
- Ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid mewn ffordd dryloyw ac agored a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yng Nghymru ynghyd â rhannau eraill o'r DU.
- Cyfathrebu gwerth Cymwysterau Cymru i'r arena cymwysterau a dangos sut mae'n ychwanegu gwerth y tu hwnt i'r trefniadau rheoleiddio cyfredol, gan gynnwys sut mae'n sicrhau gwerth am arian.
- Sicrhau bod y cymwysterau yng Nghymru o ansawdd uchel, yn cael eu cydnabod ac yn gludadwy a bod dysgwyr yn cael eu diogelu wrth iddynt symud o un system i'r llall.
- Datblygu sail ymchwil a defnyddio tystiolaeth amrywiol, gan gynnwys data i gefnogi datblygiad, penderfyniadau a'r gallu i gymharu safonau.
- Sicrhau nad yw dargyfeirio'n rhy bell o ddealltwriaeth a rennir o 'frandiau' cymwysterau'r DU yn rhoi dysgwyr o Gymru dan anfantais o ran mynediad i AU a chyflogaeth.
- Hyrwyddo'r casgliad llawn o gymwysterau o ansawdd uchel sydd ar gael yng Nghymru a dangos sut mae'r rhain yn darparu llwybr dilyniant cydlynol i ddysgwyr. (Dylai hyn gynnwys cymwysterau nad ydynt yn cael eu dyfarnu'n uniongyrchol gan Cymwysterau Cymru.)

  '*Bydd yn rhaid i Cymwysterau Cymru sicrhau'r cyhoedd yng Nghymru a thu hwnt, yn enwedig yn Lloegr lle bydd llawer o'n dysgwyr yn mynd, bod ein cymwysterau cystal ag unrhyw le arall yn y DU. Bydd hyn yn gofyn am ddull deuol: yn gyntaf, bydd yn rhaid iddynt gael eu dilysu gan arsylwyr allanol diduedd; yn ail, mae'n rhaid iddynt ymddangos felly, yn enwedig yn llygad y cyfryngau. Bydd angen ystyried strategaeth cyfryngau'r sefydliad newydd yn ofalus a bydd yn rhaid iddi gynnwys dadansoddiad o risg. Dylai hefyd gynnwys ffyrdd o wrthbrofi honiadau nad yw cymwysterau yng*

*Nghymru, oherwydd eu bod yn cynnwys elfennau o gynnwys a dulliau asesu nad ydynt ar waith yn Lloegr bellach, mor gadarn â'r cymwysterau cyfatebol.'* (ATL Cymru)

**Effaith ar randdeiliaid a dysgwyr**

Nododd nifer o ymatebwyr yr effaith gadarnhaol y byddai'r cynigion yn ei chael yng Nghymru drwy greu rheoleiddiwr annibynnol. Byddai effaith gadarnhaol ar ddysgwyr hefyd gyda system wedi'i symleiddio sy'n cynnal parhad a chadw nodweddion allweddol y system gyfredol. Croesawodd un ymatebwr yr effaith ar gyflogadwyedd drwy roi ffocws newydd ar sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd.

> *'…bydd dysgwyr yn elwa'n sylweddol ar gael system gymwysterau sy'n helpu i:*
> - *sicrhau cymwysterau a fydd yn galluogi dysgwyr sy'n eu pasio i fynd ymlaen i lefel cyrhaeddiad addysgol uwch;*
> - *sicrhau cymwysterau sy'n paratoi dysgwyr gyda chyfres o sgiliau o safon byd a fydd yn helpu iddynt ddilyn gyrfa lewyrchus, neu ddechrau busnes neu fenter gymdeithasol lwyddiannus;*
> - *darparu cymwysterau a fydd yn helpu pobl i fyw yng Nghymru neu ym mhedwar ban byd, gan eu cynorthwyo i fyw mewn cymdeithas ddwyieithog a chynhwysol yn gymdeithasol.'* (Grŵp Llandrillo Menai)

Awgrymodd un sefydliad dyfarnu y byddai rhai sy'n cynnig arholiadau graddedig mewn pynciau fel, er enghraifft ballet, cerdd a dawns yn gweld sefydlu Cymwysterau Cymru fel cyfle i ymgysylltu'n fwy cynhyrchiol â'r math hwn o asesu a'u rhoi mewn sefyllfa gydlynol o fewn y dirwedd cymwysterau yng Nghymru.

Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr risgiau posibl i ddysgwyr a'u sefydliadau eu hunain. Roedd y rhan fwyaf o sefydliadau dyfarnu yn bryderus y byddai canlyniadau anfwriadol yn sgil creu Cymwysterau Cymru a allai gael effaith negyddol ar ddysgwyr ynghyd â'u sefydliadau eu hunain. Roedd y rhain yn cynnwys baich rheoleiddio wrth greu corff rheoleiddio arall, ynghyd ag anawsterau a goblygiadau cost wrth ddatblygu cymwysterau'n benodol ar gyfer Cymru.

Gallai hyn arwain at ostyngiad posibl yn amrywiaeth y cymwysterau galwedigaethol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru os oes yn rhaid i sefydliadau dyfarnu adael y farchnad.

Efallai y bydd gostyngiad yn symudedd dysgwyr yng Nghymru os yw cymwysterau'n rhy benodol i Gymru neu os oes llai o gymwysterau ar gael, gan arwain at anfantais i ddysgwyr yng Nghymru a allai weld eu llwybrau dilyniant yn lleihau. Nododd dau sefydliad dyfarnu y byddent yn adolygu'r hyn y maent yn ei gynnig yng Nghymru o ystyried yr anawsterau ymddangosiadol hyn. Nodwyd effaith negyddol ar ddarparwyr dysgu yn y gwaith sy'n gweithio ar draws ffiniau, pe bai'r gofynion i Gymru yn rhy wahanol.

Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn bryderus y byddai llai o amrywiaeth o ran dewis ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, gan gynnwys nifer o golegau. Crynhodd un coleg y risg fel a ganlyn:

> '*Mae Cymru'n wlad fach a byddai angen ystyried y broses gymeradwyo'n ofalus ar gyfer sicrhau'r hawl i gynnig darpariaeth achrededig wedi''i chyllido yma. Mae perygl pe bai'r cyfyngiadau'n rhy feichus, neu'n wahanol i rai gwledydd eraill y DU, gallai cyrff dyfarnu benderfynu peidio ceisio cael eu cymeradwyo gan y byddai'r amser a'r costau yn fwy na'r incwm posibl. Gallai hyn roi grwpiau bach o ddysgwyr yng Nghymru dan anfantais sylweddol ac arwain o bosibl at barhau â'u haddysg bellach yn Lloegr, lle na fyddai cwricwlwm estynedig Cymru (dwyieithrwydd a diwylliant Cymru) yn cael ei gynnwys.'*

Roedd risgiau eraill a nodwyd ar gyfer dysgwyr yn cynnwys diffyg cludadwyedd cymwysterau a'r effaith o ddatblygu cymwysterau wedi'u brandio sy'n wahanol iawn i wledydd eraill y DU. Gallai hyn effeithio'n negyddol ar fynediad i AU.

Nododd tair cymdeithas addysgu faterion llwyth gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynigion, a'r angen i fynd i'r afael â'r rhain yn gynnar yn y broses, yn enwedig yng ngoleuni'r newidiadau eraill sy'n digwydd mewn ysgolion.

Er mwyn lleihau'r risg a chefnogi datblygiad system gymwysterau gadarn yng Nghymru, mewn ymateb i'r cwestiwn olaf, mynegodd llawer o ymatebwyr eu dyhead a'u hymrwymiad i gydweithio â Cymwysterau Cymru yn y dyfodol wrth i'w rôl ddatblygu.

**Pwyntiau ychwanegol a godwyd yn yr ymatebion**

Yn ogystal â'r crynodebau thematig uchod, derbyniwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol ar gyfer pob cwestiwn:

**Cwestiwn 1**
**A oes unrhyw broblemau eraill sy'n amharu ar effeithiolrwydd y system bresennol neu a oes unrhyw wendidau eraill?**

Disgrifiodd nifer o ymatebwyr y problemau ychwanegol y daethant ar eu traws yn eu meysydd gwaith penodol, a oedd yn cynnwys:

- Anghysondebau a diffyg eglurder yn nehongliad a chymhwysiad gofynion rheoleiddio ar draws Cymru a Lloegr, yn enwedig o ran Amodau Cydnabod Cyffredinol ar gyfer sefydliadau dyfarnu bach.
- Diffyg dealltwriaeth gyffredinol o gymwysterau galwedigaethol, yn enwedig mewn perthynas â IVET a CVET.
- Y defnydd o gymwysterau mewn mesurau perfformiad sy'n gallu gweithio yn erbyn y dysgwr.

- Rhwystrau pellach i ddysgwyr ag anableddau. Dywedodd un ymatebwr eu bod yn cael “gwasanaeth gwael iawn”.
- Yr anhawster wrth newid sefydliad hanner ffordd drwy gwrs pe defnyddid sefydliad dyfarnu gwahanol.
- Goruchafiaeth marchnadoedd Lloegr o safbwynt sefydliadau dyfarnu.
- Y ffaith nad oes dealltwriaeth ddigonol o Fagloriaeth Cymru y tu allan i Gymru.
- Nid yw’r system gyfredol yn ffafrio e-ddysgu ac asesu.
- Diffyg diogelu hawliau eiddo deallusol yn natblygiad cymwysterau.
- Tuedd ac ymyrraeth wleidyddol.
- Diffyg meincnodi ôl-16.

**Cwestiwn 2**
**A oes unrhyw nodweddion penodol o’r system bresennol y byddech yn awyddus i’w cadw?**

Roedd yr ymatebwyr am gadw:

- Lefel UG fel rhan o’r Safon Uwch ac elfennau o asesu nad ydynt yn rhai terfynol (nodwyd yn arbennig mewn ymatebion gan golegau ac athrawon).
- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a chyfranogiad ac ymgysylltiad cyflogwyr â chymwysterau (nodwyd yn benodol gan sefydliadau dyfarnu galwedigaethol a Chynghorau Sgiliau Sector).
- FfCChC a’i berthynas â FfCCh ((nodwyd yn benodol gan sefydliadau dyfarnu galwedigaethol a Chynghorau Sgiliau Sector).
- Dull cadarn o gydweithio ac ymgynghori wrth ymwneud â Sefydliadau Dyfarnu.

**Cwestiwn 3**
**Beth yw eich barn am y weledigaeth yr ydym yn ei chynnig ar gyfer Cymwysterau Cymru?**

Tra bod y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn cymeradwyo’r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Cymwysterau Cymru, roedd amheuon yn cynnwys:

- Y dryswch posibl rhwng cymwysterau â’r un teitl ond gwahanol feini prawf, pe na bai’r cydweithio ar draws ffiniau yn parhau.
- Y costau a’r baich ychwanegol posibl i sefydliadau dyfarnu wrth ddatblygu cymwysterau penodol i Gymru, neu fabwysiadu’r un cymwysterau ond eu haddasu ar gyfer gwahanol wledydd. Nodwyd hyn fel risg hefyd pe bai sefydliadau dyfarnu yn penderfynu nad oedd cynnig cymwysterau penodol i Gymru yn gost-effeithiol, gan leihau amrywiaeth y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru drwy hynny.
- Ni ddylid peryglu’r ymgysylltu â chyrff proffesiynol sy’n cwmpasu’r DU i gyd er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr yng Nghymru fynediad i’r ystod lawn o gymwysterau proffesiynol.
- Ni ddylai gwelliannau parhaus olygu newid parhaus a dylai Cymwysterau Cymru gynnal sefydlogrwydd o ran datblygu cymwysterau.

Roedd y rhesymau a roddwyd gan y rhai nad oeddynt yn cefnogi'r weledigaeth yn frwd yn debyg iawn i'r rhai a roddwyd yng nghwestiwn un lle nad oedd yr ymatebwyr yn credu bod angen newid y system gyfredol. Cwestiynodd un ymatebwr a fyddai Cymwysterau Cymru yn gwbl annibynnol. Nododd ymatebwr arall bod gorbwyslais ar gymwysterau penodol yn y weledigaeth ac nad oedd y weledigaeth yn ddigon cynhwysol.

Nododd nifer fach o sefydliadau ychwanegiadau yr hoffent eu cynnwys yn y weledigaeth neu'r cylch gwaith ar gyfer Cymwysterau Cymru, gan gynnwys yr angen i ymgysylltu ag undebau llafur sy'n cynrychioli'r gweithlu addysg, cyfeiriad at y Gymraeg a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg ym mharagraff 4.2 a bod yr angen i roi ystyriaeth weithredol i gynllunio cymwysterau, cwricwlwm a rhaglenni dysgu i ddiwallu anghenion pobl ifanc o bob grŵp â nodweddion gwarchodedig (cydraddoldeb) yn rhan o egwyddorion a dyletswyddau sylfaenol Cymwysterau Cymru.

**Cwestiwn 4**
**Ydych chi'n credu y bydd y gweithgareddau a'r swyddogaethau arfaethedig hyn yn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru?**

Er bod y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno bod y gweithgareddau a'r swyddogaethau arfaethedig yn briodol, roedd yr amheuon nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad yn cynnwys:

- Diffyg eglurder am y berthynas rhwng Cymwysterau Cymru a CBAC
- Gwrthwynebiad i gorff rheoleiddio yn codi incwm o weithgareddau sicrhau ansawdd
- Diffyg eglurder yn ymwneud â gweithgareddau Cymwysterau Cymru y tu allan i Gymru
- Pryder bod Cymwysterau Cymru yn dethol y cymwysterau y byddai'n eu darparu ar sail costau a nifer yr ymgeiswyr yn hytrach nag anghenion dysgwyr ac y dylai bod meini prawf clir ar gyfer pa gymwysterau fyddai'n cael ei dyfarnu a pha rai fyddai'n cael eu rheoleiddio.

**Cwestiwn 5**
**Beth yw eich barn am y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Cymwysterau Cymru?**

Dim manylion pellach

**Cwestiwn 6**
**Beth yw eich barn am gylch gorchwyl a swyddogaethau arfaethedig Cymwysterau Cymru? Ydych chi'n meddwl bod ei gylch gorchwyl a'i swyddogaethau yn weddol briodol neu a ddylai gael cylch gwaith gwahanol?**

Er mod y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno bod y gweithgareddau a'r swyddogaethau arfaethedig yn briodol, roedd y pryderon nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad yn cynnwys:

- Gallai’r ffocws ar reoleiddio cymwysterau yn hytrach na sefydliadau dyfarnu fod yn her ac arwain at oblygiadau o ran adnoddau a gallu.
- Eglurder annigonol ynglŷn â rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol yn ogystal â pholisi diweddar llywodraeth y DU yn ymwneud â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a Phrentisiaethau.
- Pryderon am gyllid – ar gyfer Cymwysterau Cymru a’r effaith ar ysgolion a cholegau.
- Nid oedd nifer o ymatebwyr o blaid gweld rheoleiddiwr yn codi tâl am wasanaethau Sicrhau Ansawdd.
- Pryderon am y syniad bod Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio ei gymwysterau ei hun, a’r angen am eglurhad ynglŷn â sut y byddai hyn yn cael ei wneud.

Nododd rhai ymatebwyr swyddogaethau ychwanegol a allai gael eu cynnwys yng nghylch gwaith Cymwysterau Cymru, er enghraifft:

- Cymwysterau Cymru i fod yn ‘borthor’ ar gyfer Prentisiaethau.
- Dylai’r holl ddarpariaeth cymwysterau fod ar gael yn ddwyieithog a mwy o ffocws ar ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyffredinol.
- Gallai Cymwysterau Cymru gynnal adolygiadau thematig tebyg i Estyn.

**Cwestiwn 7**
**Beth ddylai Cymwysterau Cymru ei wneud i gryfhau hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru?**

Awgrymodd ymatebion eraill y dylai Cymwysterau Cymru:

- Sicrhau bod yr un parch at gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.
- Datblygu cymwysterau y gellir eu cymharu’n hawdd â’r rhai mewn rhannau eraill o’r DU ac Ewrop.
- Mapio cymwysterau i fframweithiau eraill er mwyn cefnogi symudedd dysgwyr.
- Ystyried yn ofalus sut y gall sicrhau bod cymwysterau sy’n ‘gyffredin’ rhwng Cymru a Lloegr (fel TGAU a Safonau Uwch) yn ennyn hyder pan fo gwahaniaethau yn eu helfennau strwythurol allweddol.
- Sicrhau bod cymhelliant digonol i sefydliadau dyfarnu i arloesi a datblygu cymwysterau sy’n addas ar gyfer anghenion newidiol dysgwyr yng Nghymru.

**Cwestiwn 8**
**Yn eich barn chi, sut ac i ba raddau y bydd y cynigion hyn yn effeithio arnoch chi, eich sefydliad, dysgwyr a/neu unrhyw gategorïau rhanddeiliaid penodol?**

Dim manylion pellach

**Cwestiwn 9**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.**

Atebodd ychydig dan hanner yr ymatebwyr y cwestiwn hwn. Defnyddiodd llawer y cwestiwn hwn i nodi eu parodrwydd i ymgysylltu a chydweithio â Cymwysterau Cymru yn y dyfodol wrth iddo ddatblygu. Gofynnodd eraill am eglurder pellach ar faterion fel sicrhau ansawdd, materion yn ymwneud yn benodol â chymwysterau, a rheoleiddio cymwysterau galwedigaethol. Pwysleisiwyd yr angen am gyfathrebu clir, gan gynnwys rhieni hefyd.

**Materion cymwysterau**

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, crybwyllodd llawer o ymatebwyr faterion pwysig yn ymwneud â chymwysterau yn hytrach na sefydlu Cymwysterau Cymru fel sefydliad.

Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd cludadwyedd a pherthnasedd cymwysterau a oedd yn cael eu datblygu yng Nghymru ar draws ffiniau, a hyd yn oed lle'r oedd cymwysterau'n datblygu'n wahanol i Loegr er enghraifft, mae'n rhaid i safonau fod yn debyg ac yr un mor berthnasol.

Roedd cefnogaeth gadarn hefyd dros:

- parhau i ddatblygu a darparu cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- cadw brandiau cyfredol fel TGAU a Safon Uwch.
- cadw'r lefel UG fel rhan o'r Safon Uwch.
- cadw elfennau asesu allanol nad ydynt yn rhai terfynol.
- Bagloriaeth Cymru fel y cymhwyster blaenllaw ar gyfer Cymru, gan gynnwys ei ddatblygu ar lefel Mynediad.
- datblygu potensial e-asesu.
- pwyslais cryfach ar bynciau STEM.
- meincnodi cymwysterau yn erbyn fframweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol.
- yr un parch ar gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.

Er nad oedd rhai ymatebwyr o blaid i gymwysterau yng Nghymru ddatblygu'n wahanol i'r rhai yn Lloegr, roedd y rhai nad oedd yn gwrthwynebu hynny, yn arbennig mewn perthynas â lefel UG a Safon Uwch, yn mynnu bod yn rhaid i'r cymwysterau gael eu cydnabod a gallu cael eu cymharu.

## 1.5 Rhestr o'r ymatebwyr

| | |
|---|---|
| AO | Sefydliad dyfarnu |
| TA | Cymdeithas Athrawon |
| SBE | Sgiliau Sector/busnesau/cyflogwyr |
| LA | Awdurdod Lleol |
| SC | Ysgol/Coleg |
| HE | Addysg Uwch |
| FE | Addysg Bellach |
| SV | Llais Myfyrwyr |
| N | Corff Cenedlaethol |
| I | Ymateb unigol |

1. SBE Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau
2. AO Rhwydwaith y Coleg Agored
3. LA Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
4. N Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch
5. AO AQA
6. SBE CITB Cymru Wales
7. AO Cyflawniad a Dysgu Rhagorol [EAL]
8. HE Coleg Prifysgol *ifs*
9. SBE Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru [NtFW]
10. FE Coleg Castell-nedd Port Talbot [Grŵp NPTC]
11. AO Pearson
12. AO CBAC
13. N Y Sefydliad Ffiseg
14. AO Agored Cymru
15. LA Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
16. HR Prifysgol Caerdydd
17. SC Ysgol Uwchradd Fitzalan
18. LA Gwasanaethau Addysg Conwy
19. N CYDAG
20. HE CCAUC
21. SC Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant
22. TA NASUWT
23. AO OCR
24. FE Coleg Gwent
25. TA NAHT CYMRU
26. FE Colegau Cymru
27. SV Llais Myfyrwyr Coleg Cambria
28. FE Grŵp Llandrillo Menai
29. AO British Institute of Innkeeping Awarding Body
30. TA UCAC
31. HE Prifysgol Aberystwyth
32. SBE Learndirect Cymru
33. AO CACHE
34. AO City & Guilds
35. N Comisiynydd y Gymraeg
36. AO Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu
37. SBE Skills Active
38. TA Undeb y Prifysgolion a'r Colegau
39. SBE Sefydliad y Diwydiant Moduro

40. AO Cymwysterau GQA
41. AO Royal Academy of Dance Examinations Board
42. N Estyn
43. SBE Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
44. AO Sefydliad Dyfarnu NCFE
45. TA Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (Cymru)
46. TA NUT Cymru
47. AO Education Construction Industry Training Board
48. I Emma Dale, Ysgol Uwchradd Cei Connah
49. I Ewen McLaughlin, Coleg Gŵyr
50. I S Davies, Athro Gwyddoniaeth
51. I John Nicholson, Llywodraethwr, Ysgol Uwchradd yn y Gogledd
52. I Glen Gilchrist, Ysgol Uwchradd Casnewydd
53. FE Coleg Sir Benfro
54. SV Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
55. FE Coleg Cambria
56. N Ofqual
57. HE UCAS
58. SBE The JSSC Group (Sgiliau er Cyfiawnder)
59. SBE IMEJ Windows
60. I D Kitcher
61. HE Addysg Uwch Cymru
62. TA ASCL

## 1.6 Dadansoddiad o’r ymatebion fesul cwestiwn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| C1 | Cytuno ar rwystrau/achos dros newid | 43 Cytuno | 7 Anghytuno | 12 Heb grybwyll |
| C2 | Nodweddion penodol y system bresennol i’w cadw | 32 Cludadwyedd cymwysterau<br>20 Sawl / dewis o sefydliadau dyfarnu<br>10 FfCChC<br>6 Cydweithio â sefydliadau eraill<br>4 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol | | |
| C3 | Barn a gweledigaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru | Croesawu | Dim amheuon | 9 |
| | | | Gydag amheuon | 41 |
| | | | Rheoleiddiwr annibynnol yn unig | 5 |
| | | Gwrthwynebu | | 3 |
| | | Dim barn | | 4 |
| C4 | Barn ar weithgareddau a swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio a dyfarnu | 39 Cytuno gyda swyddogaeth reoleiddio<br>24 Cytuno gyda swyddogaeth ddyfarnu yn ogystal<br>11 Anghytuno gyda swyddogaeth ddyfarnu<br>12 Ni fynegwyd barn | | |
| C5 | Cytuno’n gyffredinol â threfniadau llywodraethu arfaethedig | 45 Cytuno | 1 Anghytuno | 16 Heb grybwyll |
| C6 | Cylch gorchwyl a swyddogaethau yn weddol briodol | 43 Cytuno | 14 ddim ar gael | |
| C7 | Cryfhau hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a gynigir yng Nghymru | Dadansoddiad ddim ar gael | | |
| C8 | Effeithiau | Dadansoddiad ddim ar gael | | |
| C9 | Sylwadau Ychwanegol | 27 o ymatebion | | |

# 2. Ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc

## 2.1 Cefndir

Comisiynodd Llywodraeth Cymru hwyluswr allanol, *Cognition*, i ymgynghori'n benodol â phlant a phobl ifanc yng Nghymru ar eu barn ar y cynnig i sefydlu Cymwysterau Cymru, a materion eraill sy'n gysylltiedig â chymwysterau.

## 2.2 Methodoleg

Yn ystod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014, siaradodd Cognition â 124 o blant a phobl ifanc mewn 12 gwahanol sefydliad ledled Cymru, gan ofyn cwestiynau iddynt ar y materion canlynol:

- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion ar gyfer Cofnod Dysgu Personol?
- Sut fyddech chi'n hoffi derbyn gwybodaeth am gymwysterau?

Er mwyn casglu barn ystyrlon, roedd yn hollbwysig bod y plant a'r bobl ifanc dan sylw yn deall manylion a chefndir y cynigion mewn ffordd glir a deniadol. Cyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio cyflwyniad PowerPoint wedi'i animeiddio a oedd yn dangos y materion canlynol:

- Sut mae'r system cymwysterau 14-19 gyfredol yn gweithio.
- Y problemau a nodwyd yn yr Adolygiad o Gymwysterau a'r achos dros newid a gyflwynwyd ganddo
- Sut bydd y system newydd arfaethedig yn gweithio.

Rhannwyd y cyfranogwyr yn grwpiau llai a chawsant 10 i 15 munud i drafod y cynigion. Gofynnwyd i grwpiau nodi eu syniadau ar daflenni o dan y penawdau canlynol:

Beth ydych chi'n ei feddwl o'r cynigion ar gyfer Cymwysterau Cymru?

- Manteision Posibl
- Problemau Posibl
- Cyngor ar gyfer Cymwysterau Cymru

Aeth hwyluswr Cognition o grŵp i grŵp yn ystod y trafodaethau grwpiau bach er mwyn ateb unrhyw gwestiynau a darparu cymorth.

Archwiliwyd y pynciau ymgynghori eraill, fel barn ar y cynigion Rhif Unigryw'r Dysgwr a Chofnod Dysgu Personol a'r ffordd orau o gael gwybodaeth am gymwysterau drwy drafodaeth uniongyrchol wedi'i hwyluso ar ôl cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol.

Fel hyn, byddai'r bobl ifanc yn gallu ateb y cwestiynau ymgynghori ffurfiol gyda chryn dipyn o feddwl a thrafod ymysg ei gilydd. Recordiwyd yr holl drafodaethau.

## 2.3 Crynodeb o'r cyfranogwyr

Cymerodd cyfanswm o 124 o blant a phobl ifanc ran yn y gweithgaredd ymgysylltu hwn. Mae'r tabl canlynol yn rhoi dadansoddiad o'r nifer hwn yn ôl math o leoliad dysgu.

| | |
|---|---|
| Ysgolion (grwpiau oedran hŷn) | 52 |
| Ysgolion (grwpiau oedran iau) | 13 |
| Colegau | 35 |
| Darparwyr Hyfforddiant | 16 |
| Prifysgolion | 8 |
| **Cyfanswm** | **124** |

## 2.4 Dadansoddiad cryno

### Canfyddiad o TGAU cyfredol

Mynegodd cyfranogwyr ym mhob grŵp y pryder hwn, ac eithrio'r ddau grŵp cyn TGAU sy'n fwyaf tebygol o sefyll yr arholiadau newydd ac nad ydynt felly'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y mater hwn.

Y prif bryder oedd y bydd y problemau sy'n codi o'r gwahanol ganfyddiadau am ansawdd cymwysterau a gynigir gan y Cyrff Dyfarnu amrywiol, o dan y cynigion hyn, yn symud i gymhariaeth rhwng y cymwysterau hen a newydd, rhwng y cymwysterau TGAU a Safonau Uwch cyn ac ar ôl dyfodiad Cymwysterau Cymru.

Nododd cyfranogwyr os mai'r bwriad yw cynhyrchu cymwysterau sydd mor uchel eu parch â phosibl ac a gânt eu hystyried ledled Cymru, y DU a'r byd fel y 'safon aur', yna bydd hyn yn adlewyrchu ar yr hyn a oedd yn bodoli yn flaenorol. Os yw'r TGAU a'r Safonau Uwch cyfredol yn dod i gael eu hystyried yn gymwysterau ansawdd is, mae'r goblygiadau ar gyfer y cyfranogwyr yn destun pryder mawr, o ran posibiliadau addysg bellach a chyflogaeth.

Er mwyn goresgyn y broblem bosibl hon, awgrymodd cyfranogwyr dri phrif ddull: marchnata, addysg a gorfodi. Roeddynt yn poeni y byddai'r pwyslais ar farchnata system Cymwysterau Cymru fod ar symlrwydd a thegwch yn hytrach nag ansawdd y cymwysterau a gynigir. Cafwyd llawer o awgrymiadau am ymgyrch addysg yn targedu canfyddiadau'r cyhoedd a dealltwriaeth sefydliadau addysgol a chyflogwyr mewn perthynas â chydraddoldeb cymwysterau a ddyfernir cyn ac ar ôl sefydlu Cymwysterau Cymru. Awgrymodd cyfranogwyr hefyd y dylai fod ffordd gyfreithiol neu bolisi o sicrhau nad yw cyflogwyr yn gwahaniaethu ar sail y rhai sydd â'r TGAU a'r Safonau Uwch newydd a'r rhai sydd hebddynt.

### Effaith ar bobl ag anghenion dysgu ychwanegol

Deilliodd y thema hon o ddau brif bryder:

- Roedd llawer o gyfranogwyr yn deall mai un o'r rhesymau bod ysgolion yn dewis gwahanol Gyrff Dyfarnu o dan y system gyfredol yw er mwyn diwallu anghenion eu myfyrwyr. Ystyrir bod rhai byrddau'n cynnig cyrsiau sy'n llai o her yn academaidd ac efallai bod y rhain yn cael eu dewis er mwyn iddynt fod yn addas ar gyfer galluoedd academaidd is.

- Mae rhai o'r byrddau presennol yn cynnig gwell cefnogaeth i Anghenion Dysgu Ychwanegol nag eraill, o ran papurau wedi'u haddasu, darpariaeth cyfarpar, meddalwedd ac ati. Roedd cyfranogwyr yn benderfynol y dylai Cymwysterau Cymru gynnig y cyfleoedd gorau posibl i bobl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dylai'r cyfleoedd hyn fod ar ffurf gwahaniaethu o fewn y cymwysterau a gynigir, gan barhau â'r system haenau a modiwlaidd sydd ar waith ar hyn o bryd, ac ystyried geiriad cwestiynau a deunyddiau ategol, darpariaeth deunyddiau wedi'u haddasu a chyfarpar, meddalwedd ac ati.

**Effaith ar ysgolion ac athrawon**

Mynegwyd sawl pryder am y llwyth gwaith ychwanegol ar athrawon a fyddai angen pontio i feysydd llafur cwrs newydd, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio lle y gall fod gofyn iddynt ddarparu cyrsiau ar gyfer nifer o wahanol gymwysterau ar yr un pryd. Credai llawer o gyfranogwyr nad yw llawer o ysgolion ac athrawon yn gyfarwydd â gwneud newidiadau fel hyn o reidrwydd oherwydd eu bod wedi bod yn darparu'r un cymwysterau a chyrsiau am flynyddoedd lawer.

**Cludadwyedd / cydnawsedd â gweddill y DU**

Roedd cyfranogwyr yn bryderus y gallai prifysgolion a cholegau y tu allan i Gymru fod yn amheus o gymwysterau newydd Cymwysterau Cymru, a niweidio cyfleoedd myfyrwyr Cymru o barhau â'u haddysg yng ngweddill y DU.

Roedd trafodaethau hefyd am y problemau a allai godi ar gyfer disgyblion iau sy'n symud rhwng ysgolion yng Nghymru a Lloegr. Cydnabuwyd y gallai hyn achosi problemau ar hyn o bryd gan fod ysgolion yn defnyddio gwahanol Gyrff Dyfarnu ac y gallai myfyrwyr symud i ysgol sy'n addysgu gwahanol gyrsiau gyda gwahanol feysydd llafur, a bydd hyn yn sicr yn wir unwaith y bydd Cymwysterau Cymru ar waith.

Fodd bynnag, nodwyd y byddai myfyrwyr yng Nghymru yn ei chael yn haws i symud rhwng ysgolion pe baent yn addysgu'r un cymwysterau.

**Ystyriaethau wrth bontio**

Canolbwyntiodd cyfranogwyr ar sut y gellid cyflwyno'r system newydd heb beri llawer o aflonyddwch a risg i ddysgwyr ac ysgolion. Roeddynt yn

pwysleisio'r angen am bontio araf a phwyllog sy'n ystyried yr amser y bydd yn ei gymryd i athrawon a disgyblion addasu i'r system newydd a'r gwahaniaethau rhwng ysgolion yn y ffordd y maent yn cynnal cyrsiau (dros flwyddyn neu ddwy flynedd).

Crybwyllwyd Cyfnod 1 y broses bontio hefyd, gyda Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio'r Cyrff Dyfarnu cyfredol. Pe bai Cymwysterau Cymru yn penderfynu nad yw cwrs penodol yn foddhaol, byddai angen iddynt ystyried yr effaith ar y myfyrwyr hynny a allai fod yn dilyn y cwrs hwnnw neu'n ystyried ei ddewis.

**Lefel yr arholiadau newydd**

Roedd cyfranogwyr am i Cymwysterau Cymru ystyried o ddifrif sut y bydd yn sicrhau'r lefel briodol o anhawster ar gyfer yr arholiadau newydd, o ystyried mai un o'r prif broblemau gyda'r system gyfredol yw'r canfyddiad bod cymwysterau rhai byrddau'n anoddach na'i gilydd.

Mae awgrymiadau'n cynnwys defnyddio cyfuniad o ddeunydd o wahanol bapurau arholiad blaenorol a gwahanol fyrddau a sefydlu grwpiau peilot / ffocws i benderfynu ar y lefel anhawster sydd fwyaf priodol ar gyfer y mwyafrif o fyfyrwyr. Awgrymwyd y dylid penderfynu ar lefel a pheidio â'i newid am gryn amser er tegwch a chysondeb.

**Materion ailsefyll**

Roedd pryderon yn canolbwyntio ar ddau bosibilrwydd:

- Beth sy'n digwydd os oes rhywun wedi astudio ar gyfer y cymwysterau cyfredol, yna'n penderfynu ailsefyll ar ôl rhoi system newydd Cymwysterau Cymru ar waith?
- Os yw system Cymwysterau Cymru yn cael effaith negyddol ar y canfyddiad o'r cymwysterau cyfredol, a fydd pobl yn cael eu cefnogi i ailsefyll er mwyn ennill y cymhwyster newydd?

Dywedodd un cyfranogwr y dylid parhau i gynnig darpariaeth i ailsefyll y cyrsiau a'r cymwysterau cyfredol am nifer rhesymol o flynyddoedd ar ôl cyflwyno'r system newydd.

**Materion gwleidyddol**

Roedd cyfranogwyr yn bryderus am y berthynas rhwng y Llywodraeth a Cymwysterau Cymru:

1. Nad yw newid mor sylweddol yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng gwleidyddol pe bai cyfansoddiad gwleidyddol y Cynulliad Cenedlaethol yn newid neu pe bai agweddau'n newid gydag amser. Defnyddiwyd y Cyfnod Sylfaen fel enghraifft o sut y gall polisi addysgol gael ei effeithio gan

newidiadau gwleidyddol a newid mewn agweddau a’r effaith niweidiol y gall hyn ei chael ar ddysgwyr a gweithwyr proffesiynol.

2. Nad yw annibyniaeth Cymwysterau Cymru yn lleihau ei atebolrwydd.

**Cynnwys cyrsiau newydd**

Credai cyfranogwyr fod hyn yn gyfle i ystyried cynnwys pob cwrs a’u pwyslais addysgol. Awgrymodd rhai y dylai pob cymhwyster gynnwys rhyw elfen o Sgiliau Bywyd er mwyn galluogi myfyrwyr i ddefnyddio’u dysgu yn y byd go iawn, tra byddai eraill yn hoffi gweld mwy o bwyslais ar feithrin dealltwriaeth yn hytrach na dysgu fformiwla i basio arholiadau.

**Y dewis o bynciau a gynigir**

Teimlwyd na ddylai’r system newydd leihau y dewis o bynciau a gynigir ar lefel TGAU a Safon Uwch. Nodwyd pe bai myfyriwr am astudio pwnc anghyffredin o ddiddordeb lleiafrifol ei bod yn aml yn bosibl canfod un o’r Cyrff Dyfarnu cyfredol sy’n ei gynnig a’i bod yn llai tebygol y byddai Cymwysterau Cymru yn gallu cynnig dewis o’r fath.

**Diweithdra**

Roedd pryder y byddai rhoi diwedd ar weithgareddau Cyrff Dyfarnu yng Nghymru yn arwain at gynnydd mewn diweithdra.

## 2.5 Rhestr o'r cyfranogwyr

| **Ysgolion** | **Math** | **Dyddiad** | **Rhanbarth** | **Cyfranogwyr** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd y Rhyl, Y Rhyl | Ysgol Uwchradd Saesneg | 14.01.14 | Gogledd | 7 |
| Ysgol Gyfun Bro Morgannwg, Y Barri | Ysgol Uwchradd Gymraeg | 16.01.14 | De-ddwyrain | 12 |
| Ysgol Stanwell, Penarth | Ysgol Uwchradd Saesneg | 17.01.14 | De-ddwyrain | 11 |
| Ysgol Sefydledig Brynmawr, Glynebwy | Ysgol Uwchradd Saesneg | 23.01.14 | De-ddwyrain | 8 |
| Ysgol y Strade, Llanelli | Ysgol Uwchradd Gymraeg | 03.02.14 | De-orllewin | 14 |
| **Ysgolion – Grwpiau oedran iau** | | | | |
| Ysgol Gynradd Glyncollen, Abertawe (Blwyddyn 6) | Ysgol Gynradd Saesneg | 02.12.13 | De-orllewin | 6 |
| Ysgol Stanwell, Penarth (Blwyddyn 9) | Ysgol Uwchradd Saesneg | 17.01.14 | De-orllewin | 7 |
| **Colegau** | | | | |
| Coleg Menai, Llangefni | Addysg Bellach | 13.01.14 | Gogledd | 9 |
| Coleg Cambria, Wrecsam | Addysg Bellach | 14.01.14 | Gogledd | 12 |
| Coleg Sir Benfro, Hwlffordd | Addysg Bellach | 24.01.14 | De-orllewin | 14 |
| **Darparwr Hyfforddiant** | | | | |
| ACT Caerdydd | | 28.01.14 | De-orllewin | 16 |
| **Prifysgol** | | | | |
| Prifysgol De Cymru - Pontypridd | | 07.01.14 | De-orllewin | 8 |
| **Cyfanswm y Cyfranogwyr** | | | | **124** |